



beacon



Cyfrifoldebau Trwsio

Eich Cyfrifoldebau Trwsio


Rydych chi yn gyfrifol am gadw eich cartref mewn cyflwr rhesymol, ceisio datrys mân broblemau ac am yswirio cynnwys eich cartref.

Disgwylir i chi gymryd mesurau rhesymol i atal difrod i'ch eiddo gan dân, barrug, pibelli dŵr yn gollwng neu ddraeniau a sinciau yn blocio. Rydym yn dibynnu arnoch chi i'n hysbysu yn brydlon am unrhyw broblemau ac i roi mynediad i'n contractwyr i sicrhau y gellir gwneud y gwaith trwsio o fewn yr amserlenni a gytunwn. Yn olaf, cofiwch y bydd rhywun arall yn symud i'ch cartref os byddwch byth yn penderfynu gadael. Gofynnir i chi wneud yn siŵr eich bod yn gadael eich cartref yn lân, taclus, wedi ei addurno yn rhesymol ac y cafodd eich holl eiddo diangen eu clirio, yn cynnwys unrhyw eiddo yng ngofod y to.

Ein rhwymedigaethau i breswylwyr

Mae gennym rwymedigaeth i gadw strwythur a thu allan eich cartref a'r adeilad y mae wedi ei leoli ynddo mewn cyflwr da.

Rydym hefyd yn anelu i gadw gosodiadau ar gyfer cyflenwi dŵr, nwy a thrydan, ar gyfer glanweithdra a gwresogi ystafelloedd a dŵr mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn. Yn achos fflatiau a maisonettes, byddwn yn cymryd gofal rhesymol i gadw mynedfeydd cyffredin, cynteddau, grisiau, lifftiau, tramwyfeydd ac unrhyw rannau cyffredin eraill mewn cyflwr rhesymol.



GWAITH TRWSIO		CYFRIFOL	
		Beacon	Preswlydd
To	Gollwng / Ar goll / Wedi cracio / Teils rhydd	✓	
Algâu/mwsogl wedi tyfu ar lwybrau			✓
Ffenestri	Gwydr wedi torri neu gracio		✓
Ffenestri	Gwydr wedi torri neu gracio gyda chyfeirnod trosedd wedi ei roi i Beacon / Byrddio lan / Bachau, linteri, fframiau	✓	
Drysau mewnol	Addasu dolenni a chloeon drysau/ Plaenu drysau ar ôl gosod carpedi		✓
Drysau allanol	Yn cynnwys fframiau, dolenni, cilfachau, blychau llythyrau	✓	
Allweddi a chloeon	Colli allweddi neu gloi allan, yn cynnwys unrhyw ddifrod a achosir drwy orfodi mynediad		✓
Allweddi a chloeon	Cloeon wedi torri / Drysau cymunol	✓	
Blociadau	Sinciau cegin a basnau ymolchi dwylo / Toiledau		✓
Blociadau	Draeniau carthffosydd	✓	
Tapiau	Diferu neu wedi torri	✓	
Ceginau	Drysau ac Unedau / Droriau / Wynebaw gwaith	✓	
Gwteri a pheipiau landeri	Glanhau drwyddynt / Clirio blociadau / Trwsio	✓	
Ystafell ymolchi	Panel bath / Unedau cawod	✓	
Ystafell ymolchi	Gosodion yn cynnwys seddi toiled rhydd neu wedi torri, llenni cawod, rheiliau llenni, dalwyr papur toiled		✓
Ffaniau echdynnu	Trwsio / Adnewyddu	✓	
Terfyn	Ffensys / Waliau / Clwydi / Adnewyddu	✓	
Terfyn	Ffensys neu waliau ychwanegol neu newydd		✓
Goleuadau	Bylbiau golau / Tiwbiau golau sribed neu fodur tanio		✓
Goleuadau	Ffitiadau golau	✓	
System gwres canolog	Rheiddiaduron yn gollwng, swllyd, dim yn tanio, amseredd gwallus	✓	
System gwres canolog	Colli neu ychwanegu pwysedd os nad yn gostwng yn barhaus		✓
System gwres canolog	Colli gwres/dŵr twym yn llwyr	✓	
System gwres canolog	Gwasanaeth cyfarpar nwy	✓	
Addurno allanol	Wynebaw a gafodd eu peintio'n flaenorol		✓
Addurno allanol	Heblaw ardaloedd cymunol		✓
Cyfarpar domestig	Tebyg i gwcerau, hybiau, ffyrnau, oergelloedd, peiriannau golchi, peiriannau sychu os na ddarperir gan Beacon		✓
Ffitiadau a gosodion	Tebyg i lenni, rheiliau llenni neu fachau llenni		✓
Cynnal a chadw gerddi yn cynnwys: leiniau dillad/rotari a choed	Heblaw offer ac ardaloedd cymunol		✓
Heigiadau	Morgrug, Cacwn, Gwenyn, Llygod Bach, Llygod Mawr ac yn y blaen		✓
Socedi ffôn ac erial deledu, dysglau lloeren	Heblaw offer cymunol		✓
Difrod bwriadol neu ddamweiniol i eiddo			✓
Carpedi a/neu lorïau	Adnewyddu neu ailosod		✓
Siediau gardd	Heblaw am offer ac ardaloedd cymunol		✓
Twf llwydni	Ar walïau, nenfydau teils a growt		✓

Os ydych yn bryderus am gyddwysiad neu lwydni yn eich cartref, yna cysylltwch â ni a gallwn gynnig cyngor neu drefnu ymweliad gan syrfëwr